| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | **CYNGOR SIR** |
| **DYDDIAD:** | **23 MAI 2017** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd – Adroddiad Blynyddol 2016/17** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Adrodd ar waith y Pwyllgor yn ystod 2016/17** |

## 1. Rhagarweiniad

Rhydd Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 ddyletswydd ar y Cyngor i sefydlu Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a gefnogir gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd.

Prif bwrpas y Pwyllgor yw adolygu digonolrwydd y ddarpariaeth yn yr Awdurdod o ran staff, swyddfeydd ac adnoddau eraill er mwyn cyflawni dyletswyddau a swyddogaethau Gwasanaethau Democrataidd. Dan y Mesur, rhaid i'r Pwyllgor gyfarfod o leiaf unwaith y flwyddyn i adrodd ar faterion o'r fath i'r Cyngor.

Dyma'r pumed adroddiad blynyddol y mae'r Pwyllgor wedi ei ddarparu ers ei sefydlu yn 2012.

## 2. Rhaglen Waith y Pwyllgor

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r materion a drafodwyd gan y Pwyllgor yn ystod 2015/16 a cheir ynddo hefyd sylwadau ar y statws cyfredol.

Yn gyffredinol, canolbwyntiodd y Pwyllgor ar y meysydd canlynol:

- Datblygu Aelodau a Chynlluniau Hyfforddiant
- Gweddarlledu cyfarfodydd
- Adroddiad Blynyddol y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol
- darpariaeth TGCh i Aelodau

Yn y tabl isod, ceir crynodeb o'r materion a drafodwyd ym mhob cyfarfod yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

| Dyddiad y Pwyllgor | Pwnc | Statws Cyfredol |
|---|---|---|
| 24/10/2016 | Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol – Adroddiad blynyddol ar gyfer 2017/18 - Adroddiad drafft | Pwrpas yr adroddiad hwn oedd gofyn am sylwadau'r Pwyllgor ar gynigion drafft y Panel ar daliadau i'r Aelodau yn 2017/18. (IRP) Cyhoeddwyd adroddiad terfynol y Panel yn Chwefror 2017 ac adroddwyd i'r pwyllgor ym Mawrth 2017. |
| | Rhaglen Datblygu Aelodau 2016/17 | Pwrpas yr adroddiad hwn oedd diweddaru'r Pwyllgor ar y rhaglen datblygu Aelodau ar gyfer 2016/17 yn dilyn cymeradwyaeth gan y Cyngor ym Mai 2016. Roedd yr adroddiad hefyd yn canolbwyntio ar gynigion ar gyfer anwytho Aelodau newydd yn dilyn etholiadau Mai 2017. Yn Chwefror 2017, cymeradwywyd y Cynllun Datblygu Aelodau gan y Cyngor ar gyfer 2017/18 ac mae'n cael ei weithredu ar hyn o bryd. |
| 14/12/2016 | Gwe-ddarlledu cyfarfodydd | Diben yr adroddiad hwn oedd ystyried opsiynau ar gyfer gwe-ddarlledu cyfarfodydd ar ôl 2016/17. Argymhellwyd y dylid parhau gyda'r trefniadau presennol sef gwe-ddarlledu cyfarfodydd y Cyngor, Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgor Cynllunio yn 2017/18. Fodd bynnag, byddai angen ei gyllido gan y Cyngor gan na fyddai cymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru ar gael. Clustnodwyd swm o £10,000 yn nghyllideb y Cyngor ar gyfer 2017/18 er mwyn parhau gyda'r trefniant. Yn ystod 2017/18 bydd angen i'r Pwyllgor adolygu gwe-ddarlledu fel rhan o'i raglen waith a gofynion statudol i'r dyfodol. Yn y cyfamser penderfynodd y Pwyllgor ofyn i Lywodraeth Cymru i gyllido costau gwe ddarlledu yn y dyfodol yn sgil unrhyw ofynion statudol. Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol wedi nodi y byddai'n adolygu unrhyw oblygiadau cost maes o law. |

| | | |
|---|---|---|
| 29/3/2017 | Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol 2017/18 – Adroddiad terfynol | Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad terfynol y Panel ar gyfer 2017/18 a gwnaed argymhellion ar lefelau tâl ar gyfer uwch gyflogau. Cyflwynir adroddiad ar wahân i'r Cyngor ar y 23 o fis Mai. |
| | Darparu offer TGCh ar gyfer Aelodau | Cyflwynwyd adroddiad ac argymhellion ar gyfer offer TGCh ar gyfer Aelodau yn dilyn etholiadau'r Cyngor ym Mai 2017, gan gynnwys iPad's newydd gyda swyddogaethau eraill.<br>Mae hyn bellach wedi ei weithredu gyda chefnogaeth staff TGCh. |
| | Rhaglen Datblygu ac anwytho Aelodau - 2017/18 | Diben yr adroddiad hwn oedd diweddaru'r Pwyllgor ar drefniadau i gefnogi swyddogaethau Aelodau yn dilyn cymeradwyaeth o'r cynllun gan y Cyngor yn Chwefror 2017. Mae'r cynllun hwn yn cael ei weithredu ar hyn o bryd a bydd yn cael eu ddiweddaru a'i adolygu gan y Pwyllgor yn ddiweddarach eleni. |

**1) Argymhelliad**

Gofynnir i'r Cyngor Sir dderbyn yr adroddiad a nodi'r materion a drafodwyd gan y Pwyllgor yn ystod 2016/17.

**Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd**
**11/05/2017**